PECYN GWYBODAETH

# ATHRO/ATHRAWES DYLUNIO A TECHNOLEG A PHEIRIANNEG/TECHNOLEG CERBYDAU

## SWYDD LLAWN AMSER A PHARHAOL




'Ysgol Gydol Oed ble mae pob plentyn yn cyfri'

www.bropedr.ceredigion.sch.uk



# HYSBYSEB

Mae'r ysgol yn ymfalchïo yn y ffaith ei bod yn un o ysgolion cyntaf 3-19 Cymru, ac yn torri tir newydd o ran darparu addysg gydol oed ar gyfer ein disgyblion. Mae Ysgol Bro Pedr yn gyfuniad o ddwy ysgol flaenorol, sef Ysgol Gynradd Ffynnonbedr ac Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. Cafodd Ysgol Bro Pedr ei harolygiad Estyn diwethaf yn Hydref 2016. Er bod nifer o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol yn 3 oed, daw nifer yn ogystal o ysgolion cynradd partner eraill o'r Awdurdod Lleol ac o Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin. Mae 962 o ddisgyblion ar rôl yr ysgol – 321 o ddisgyblion Meithrin i flwyddyn 6 a 641 o ddisgyblion Blwyddyn 7-13 (sy'n cynnwys 79 o ddisgyblion ym mlwyddyn 12 a 55 o ddisgyblion ym mlwyddyn 13).

Daw 69.5% o ddisgyblion yr ysgol o gartrefi lle nas defnyddir y Gymraeg. Mae'r disgyblion yn cael eu ffrydio'n ieithyddol, gyda dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg a dosbarthiadau Cymraeg Ail-Iaith ym mlynyddoedd 3-13. Mae'r ysgol wedi mynd trwy ymgynghoriad llwyddiannus yn ddiweddar sy'n golygu bod disgyblion y Cyfnod Sylfaen i gyd yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Ar hyn o bryd, mae 24.8% o'n disgyblion yn hawlio prydiau ysgol am ddim (20.59% o'n disgyblion oed uwchradd a 33.3% o'n disgyblion oed cynradd). Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer ystod lawn o alluoedd. Mae 10.8% o'n disgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ganran yn uwch o fewn yr oed cynradd (11.0%) o'i gymharu â'r oed uwchradd (10.28%). Mae proffil poblogaeth yr ysgol yn gosmopolitan, gyda Chymry cynhenid Ceredigion a Sir Gâr, canran uchel o siaradwyr Cymraeg, ond sydd o gefndir Seisnig, nifer gynyddol o ddisgyblion sy'n hwyrddyfodiaid i'r ardal a'r ysgol a chanran sylweddol o ddisgyblion o Wlad Pwyl, Rwmania a chanran llai o ddisgyblion o Falaysia a China.

Lleolir Canolfan Y Bont, sef adnodd sirol ar gyfer disgyblion o oed uwchradd ag anghenion amrywiol (ASD, SLD, PMLD, MSI), ar safle'r ysgol. Mae'r ganolfan yn rhan lawn o'r ysgol, ac mae'r disgyblion ar rôl Ysgol Bro Pedr. Yn ogystal, sefydlwyd Uned Sgiliau Bywyd sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol lled ddwys a disgyblion ymddygiadol bregus a chyniga barhad a dilyniant i rai o ddisgyblion Canolfan y Bont lle'n berthnasol ac ymarferol. Mae yna 11 o ddisgyblion yn mynychu Canolfan Y Bont a 22 o ddisgyblion yn mynychu'r Uned Sgiliau Bywyd, ar hyn o bryd.

Mae Tîm Arwain Ysgol Bro Pedr yn cynnwys: Pennaeth, Dirprwy Bennaeth, dau Bennaeth Cynorthwyol, Arweinydd Lles ac Arweinydd Cynnydd.





# HYSBYSEB

Rydym yn chwilio am Athro/Athrawes Dylunio a Thechnoleg a Pheirianneg neu Technoleg Cerbydau brwdfrydig a medrus i ymuno â'n tîm deinamig. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ysbrydoli disgyblion i ddatblygu sgiliau meddwl yn feirniadol, creadigrwydd, a sgiliau ymarferol ym meysydd dylunio, technoleg a pheirianneg. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael y cyfle i feithrin arloesedd a datrys problemau drwy brosiectau ymarferol ac arferion dysgu blaengar.








# PROSES YMGEISIO

| | |
|---|---|
| Dyddiad Cau | Dydd Mawrth, 29ain o Ebrill 2025 |
| Cyfweliadau | Dydd Gwener, 2il o Fai 2025 |
| Dyddiad Dechrau | 1af o Fedi 2025 |

Mae Diogelu ac Amddiffyn Plant yn flaenoriaethau allweddol i Gyngor Sir Ceredigion. Ein nod yw cefnogi plant a phobl ifanc bregus er mwyn sicrhau eu bod mor ddiogel â phosibl. Mae ein hysgolion wedi ymrwymo i ddiogelu ac amddiffyn pob plentyn, a byddant yn cymryd camau i ddiogelu'u lles a chydnabod eu hawl i gael eu hamddiffyn. Caiff hyn ei gefnogi gan ethos cyffredinol yr holl ysgolion. Bydd angen gwiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y swydd hon.

Am fwy o wybodaeth neu i drefnu ymweliad, cysyllter â'r Pennaeth, Mrs Carys Morgan:

MorganC506@hwbcymru.net

The above advert is for a full-time, permanent Design Technology and Engineering/ Vehicle Technology post where the ability to communicate through the medium of Welsh and English is desirable.



# SWYDD DDISGRIFIAD

Ysgol Bro Pedr

## TEITL Y SWYDD – ATHRO/ATHRAWES DYLUNIO A TECHNOLEG A PHEIRIANNEG/TECHNOLEG CERBYDAU

### PRIF GYFRIFOLDEBAU:

#### Darparu'r Cwricwlwm:

- Cynllunio, paratoi, a chyflwyno gwersi ymgysylltiol ym maes Dylunio a Technoleg a Pheirianneg yn unol â Cwricwlwm i Gymru, manylebau CBAC neu safonau penodol yr ysgol.
- Ymgorffori amrywiaeth o strategaethau addysgu, gan gynnwys dysgu seiliedig ar brosiect, i ddiwallu anghenion amrywiol dysgwyr.
- Hyrwyddo creadigrwydd, cydweithredu a hyfedredd technegol wrth ddylunio a chyflawni prosiectau peirianneg.

#### Addysgu Ymarferol:

- Dysgu disgyblion sut i ddefnyddio offer, peiriannau, a meddalwedd yn ddiogel ar gyfer dylunio, prototeipio a gweithgynhyrchu.
- Darparu profiadau dysgu ymarferol gan ddefnyddio deunyddiau fel pren, metel, plastig a thechnolegau newydd megis argraffu 3D, CAD/CAM a rhaglennu.

#### Asesu ac Adborth:

- Dylunio a gweinyddu asesiadau i werthuso cynnydd disgyblion, gan ddarparu adborth adeiladol i wella canlyniadau dysgu.
- Cadw cofnodion cywir o berfformiad a chyflawniadau disgyblion.

#### Rheoli'r Dosbarth a'r Gweithdy:

- Sicrhau amgylchedd dysgu diogel a chynhwysol drwy gynnal safonau uchel o ddiogelwch yn y gweithdy/dosbarth.
- Goruchwylio cynnal a chadw'r offer a'r deunyddiau, gan adrodd unrhyw broblemau yn brydlon.

#### Cefnogi a Datblygu Disgyblion:

- Ysbrydoli a mentora disgyblion i ddilyn gyrfaoedd neu addysg bellach ym meysydd dylunio, technoleg, a pheirianneg.
- Cefnogi disgyblion gyda chynlluniau dysgu unigol yn ôl yr angen.

#### Datblygiad Proffesiynol:

- Aros yn gyfoes â thueddiadau diwydiant a datblygiadau technolegol, gan eu hymgorffori yn y cwricwlwm.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol a chyfrannu at ddatblygiad yr adran.

#### Cydweithio:

- Gweithio'n agos gyda chydweithwyr i gynllunio prosiectau rhyngddisgyblaethol a mentrau ysgol gyfan.
- Cyfathrebu'n effeithiol â rhieni, gwarcheidwaid a rhanddeiliaid ynghylch cynnydd a chyflawniadau disgyblion.




# MANYLEB PERSON

## CYMWYSTERAU

### HANFODOL

- Cymhwyster addysgu (e.e. TAR, QTS, neu gyfwerth).
- Gwybodaeth gyffredinol am egwyddorion dylunio, cysyniadau peirianneg, a thechnolegau perthnasol.
- Parodrwydd i ddatblygu hyfedredd mewn meddalwedd CAD ac offer gweithgynhyrchu digidol.
- Sgiliau rheoli dosbarth effeithiol a brwdfrydedd dros ddysgu sy'n canolbwyntio ar y disgybl.

### DYMUNOL

- Gradd Baglor mewn Dylunio a Thechnoleg, Peirianneg, neu faes perthnasol.
- Profiad o addysgu ystod eang o grwpiau oedran (e.e. oed uwchradd ac ôl-16).
- Gwybodaeth am ieithoedd rhaglennu neu systemau roboteg (e.e. Microbit, Arduino, Raspberry Pi).
- Profiad blaenorol mewn amgylchedd dylunio neu beirianneg proffesiynol.

### PRIF GYMWYSEDDAU:

Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol.

Sgiliau trefnu a chynllunio cryf.

Agwedd arloesol gyda'r gallu i ysgogi ac ymgysylltu â disgyblion.

Ymroddiad i feithrin amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant mewn addysg.

### BETH RYDYM YN EI GYNNIG:

Pecyn cyflog a buddion cystadleuol.

Hyfforddiant i ymgeisydd sydd heb brofiad o addysgu Dylunio a Thechnoleg, Peirianneg a Technoleg Cerbydau

Mynediad at gyfleoedd datblygiad proffesiynol.

Cyfleusterau ac adnoddau o'r radd flaenaf.

Amgylchedd addysgu cefnogol a chydweithredol.



# BLAENORIAETHAU 2024-2025

Blaenoriaeth 1 (Presenoldeb)

Gwella presenoldeb disgyblion gan gynnwys disgyblion sydd o dan anfantais

Blaenoriaeth 2 (Parodrwydd i ddysgu)

Datblygu gweithdrefnau i hyrwyddo agweddau cadarnhaol at ddysgu er mwyn caniatau cynnydd

Blaenoriaeth 3 (Dysgu ac Addysgu)

Datblygu model addysgeg effeithiol er mwyn gwreiddo'r diwylliant o her a chefnogaeth uchel

Blaenoriaeth 4 (Cynnydd)

Hyrwyddo cynnydd dysgwyr drwy ddatblygu dulliau effeithiol o asesu ac ymateb i adborth ar draws yr ysgol

Blaenoriaeth 5

Cefnogi arweinwyr wrth werthuso gwaith yr ysgol er mwyn adnabod cyfleoedd i symud yr ysgol ymlaen

Blaenoriaeth 6

Gwreiddio llais y dysgwr er mwyn sicrhau dylanwad gref ar ddarpariaeth a phenderfyniadau'r ysgol

